**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD-17-02(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2003 |
| **Amser:** | 9.15am tan 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Yn bresennol* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Tony Edwards | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| Colin Williams | Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Gareth Jones | Is-adran Rheoli'r PAC |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O'Sullivan | Yr Is-adran Polisi Amaethyddol a Physgodfeydd |
| Simon Hewitt | Y Comisiwn Coedwigaeth |
| Jasper Roberts | Yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad |
| Dr Tony Prater | RSPB Cymru |
| Richard Lewis Davies | RSPB Cymru |

| | |
|---|---|
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |

Liz Wilkinson Dirprwy Glerc y Pwyllgor

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Daeth ymddiheuriadau i law gan Glyn Davies. Penodwyd Ron Davies yn Gadeirydd dros dro tra bydd Glyn Davies yn absennol o'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 17-02(p1)**

2.1 Yn ychwnegol at y wybodaeth yn ei adroddiad ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog y byddai ymarfer ymgynghori y DU gyfan ar strategaeth iechyd a lles anifeiliaid yn cychwyn cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Byddai copïau o'r ddogfen ymgynghori yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau. Hefyd, fe wnaeth y Gweinidog gyhoeddi ei fod yn gwahodd ceisiadau i gynnal dau gyllun peilot i hyrwyddo datblygiad siopau cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig lle roeddynt wedi diflannu.

***Y Mesur Hela***

2.2 Croesawodd yr Aelodau benderfyniad y Gweinidog i ystyried gofyn i bwerau rheoliadol gael eu dirprwyo i'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hyn yn unol â'r penderfyniad a basiwyd mewn cyfarfod llawn ar y mater ym mis Mehefin 2002. Dywedodd y Gweinidog nad oedd gan Gabinet y Cynulliad farn bendant ar p'un a ddylid gwahardd hela gyda chwn. O ran tir y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, byddai'r Gweinidog yn gorfodi'r ddeddfwriaeth newydd unwaith y bydd y Mesur yn cael ei basio. Yn y cyfamser, byddai hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn parhau i gael ei reoli trwy system drwyddedu. Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu'r cyngor cyfreithiol a dderbyniodd ar ei bwerau i wahardd hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth.

***Cig o'r stoc ymyrraeth***

2.3 Mynegodd yr Aelodau bryder am erlyniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn erbyn perchennog y lladd-dy yn Raglan, a oedd wedi derbyn mwy o anifeiliaid na'r hyn oedd wedi'i ganiatáu yn ystod clwy'r traed a'r genau. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn atebol iddo pan oedd yn gweithredu fel awdurdod gorfodi. Cytunodd i roi adroddiad i'r Pwyllgor, fel y bo'n briodol, ar y camau a gymerwyd, a'r wybodaeth a roddwyd i berchennog y lladd-dy, gan DEFRA, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Cynulliad. Byddai'r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion unrhyw ladd-dy bach arall a allai, o

bosibl, wynebu erlyniad o'r fath.

2.4 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei adroddiad nesaf nodyn ar aelodau'r Pwyllgor Rheoli Cig Eidion a safiad cynrychiolwyr y DU ar y Pwyllgor o ran deunyddiau risg penodol mewn stoc ymyrraeth eidion.

***Talu cymorthdaliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin***

2.5 Fe wnaeth y Pwyllgor longyfarch staff yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig ar eu hymdrechion i brosesu taliadau'r Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS). Gobeithiwyd y byddai taliadau chwyddo Ardal Lai Ffafriol SAPS a'r Premiwm Arbennig Eidion yn cael eu talu yn hwyrach yr wythnos hon. Er bod taliadau arwynebedd Tir Mynydd sylfaenol yn is na'r cynlluniau cyfatebol mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr, roedd taliadau gwirioneddol yn Lloegr a'r Alban yn aml yn lleihau pan fyddai ffactorau eraill, megis dwysedd stocio, yn cael eu hystyried. Bu'r gweithgor a oedd yn ystyried ffurf y Cynllun Tir Mynydd yn y dyfodol yn edrych ar y cynlluniau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban i weld a allent fod yn berthnasol i Gymru.

***Corff newydd arfaethedig ar gyfer cig coch***

2.6 Nid oedd y cynigion am strwythur y Bwrdd wedi newid ers y rhai a amlinellwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Nid oedd y Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw rwystrau cyfreithiol i sefydlu'r corff newydd.

***Materion Eraill***

2.7 Dywedodd y Gweinidog:

- bod strategaeth Prydain Fawr yn cael ei ddatblygu i ddelio ag effaith **rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid yr UE**, yn arbennig, gwahardd claddu carcasau ar y fferm. Roedd y strategaeth yn cael ei datblygu gan weithgor diwydiant/llywodraeth a fyddai'n mynd i'r afael â mater llosgi;
- nid oedd **allforio defaid byw** wedi cael ei stopio er i'r modd y mae masnachwyr a chanolfannau casglu wedi bod yn gweithredu gofynion yr UE ar symudiadau anifeiliaid cyn allforio gael ei herio. Byddai'r nodyn ar y ddeddfwriaeth berthnasol, y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf, ar gael cyn toriad y Nadolig;
- dylai **hyrwyddo cig Cymreig trwy'r cigyddion** fod yn fater y byddai y corff hyrwyddo cig newydd yn delio ag ef;
- nid oedd wedi gwyrdroi unrhyw un o benderfyniadau'r **panel apelio annibynnol**. Penodwyd aelodau'r panel yn annibynnol a datblygwyd y system ar ôl ymgynghori gyda'r diwydiant. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried sut fydd y system yn gweithio rywdro yn y dyfodol, unwaith y byddai wedi ennill ei phlwyf.

**Pwyntiau Gweithredu**

Y Gweinidog i ddosbarthu'r cyngor cyfreithiol a dderbyniodd ar ei bwerau i wahardd hela ar dir y Comisiwn Coedwigaeth - **Gweinidog, y Comisiwn Coedwigaeth, OCG**

Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor, fel y bo'n briodol ac o fewn ei ddyletswyddau, ar y camau a gymerwyd, ac unrhyw gyngor a roddwyd i berchennog y lladd-dy, gan DEFRA a'r Cynulliad. Yr adroddiad i gynnwys manylion unrhyw ladd-dai bach eraill a allai, o bosibl, wynebu erlyniad o'r fath - **Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Cytunodd y Gweinidog i gynnwys yn ei adroddiad nesaf nodyn ar aelodau'r Pwyllgor Rheoli Cig Eidion a safiad cynrychiolwyr y DU ar y Pwyllgor o ran deunyddiau risg penodol mewn stoc ymyrraeth eidion - **Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

Copïau o'r ddogfen ymgynghori ar strategaeth iechyd a lles anifeiliaid i'w dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor **- Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid, yr Ysgrifenyddiaeth.**

Y nodyn y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod ar 27 Tachwedd ar ddeddfwriaeth yr UE sy'n rheoli allforio anifeiliaid byw, i'w ddosbarthu cyn toriad y Nadolig - **Gweinidog, yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid**

**Eitem 3: Yr Adolygiad Canol Tymor o'r PAC: ARD 17-02(p2)**

3.1 Fe wnaeth y Gweinidog wahodd sylwadau'r Aelodau. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- ar ddatgysylltu, dylid croesawu cynigion y Comisiwn mewn egwyddor ond byddai'n bwysig deall y manylion gweithredol a'r effaith ar Gymru. Dywedodd y Gweinidog y dylai'r ddeddfwriaeth ddrafft gael ei chyhoeddi gan y Comisiwn ddiwedd mis Ionawr, pan fyddai asesiad yn gallu cael ei wneud;
- roedd ceisio dosbarthu cyllid colofn 2 yn decach i wneud yn iawn am y tan-ariannu hanesyddol a wnaed gan yr UE i ddatblygu gwledig yn y DU, yn allweddol i sail dadleuon y DU. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol gyda'r flaenoriaeth hon. Esboniwyd bod dyraniad cyllid colofn 2 ar gyfer y cyfnod hyd at 2006 wedi cael ei bennu'n gyfriethiol o dan Agenda 2000 ac nid oedd y Comisiwn yn barod i ailagor hwn. Yr hyn yr oedd angen penderfynu arno oedd sut i ddyrannu'r arian a godwyd o dan y modiwleiddio gorfodol UE-gyfan arfaethedig.

**Eitem 4: Yr ysfa: ARD 17-02(p3)**

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y camau sy'n cael eu cymryd i gael gwared ar yr ysfa ymhlith defaid yng Nghymru. Gwnaed y pwyntiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:

- roedd tystiolaeth i awgrymu mai dim ond tua 15% o'r achosion o'r ysfa yr oedd yr Adran wedi cael gwybod amdanynt. Mae tystiolaeth mwy dibynadwy ar wasgariad gwirioneddol y clefyd yn cael ei chasglu trwy brofi tua 60,000 o ddefaid mewn lladd-dai a 6,000 pellach o stoc marw. O'r rhai a brofwyd hyd yn hyn, dim ond mewn 0.08% o ddefaid byw a 0.8% o stoc marw y cafwyd y clefyd arnynt;
- elfen o'r Cynllun Diadellau â'r Ysfa, a oedd yn destun ymgynghori, oedd iawndal ariannol i annog ffermwyr i hysbysu'r adran am achosion o'r clefyd;
- roedd nifer y genoteipiau sydd ag ymwrthedd i'r ysfa yn amrywio rhwng diadellau a bridiau unigol, yn rhannol o ganlyniad i'r strategaethau bridio a fabwysiadwyd yn y gorffennol. Ymhlith diadell Cymru, credwyd bod gan tua 50% y ddau brif gategori o genoteipiau sydd ag ymwrthedd i'r ysfa;
- roedd ymchwil yn parhau i asesu a oedd y clefyd yn cuddio BSE mewn defaid ac roedd mwy o'r canlyniadau ar gael. Hyd yn hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod BSE mewn defaid yn fwy na phosibilrwydd damcaniaethol;
- ar y raddfa bresennol, byddai gan 90% o wyn bach ymwrthedd i'r ysfa erbyn 2027 o dan Gynllun Cenedlaethol yr Ysfa. Roedd y Cynulliad yn pwyso am adolygiad strategol o'r Cynllun ac roedd hefyd wedi cyflwyno'r mesurau a amlinellwyd yn y papur er mwyn cyflymu'r broses yng Nghymru.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ychwanegol i'r Aelodau ar weithredu'r Cynllun Diadellau â'r Ysfa.

**Pwynt Gweithredu**

Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn pellach i'r Aelodau ar weithredu'r Cynllun Diadellau â'r Ysfa - **Gweinidog, yr Is-adran iechyd Anifeiliaid**

**Eitem 5: Ymchwiliad y Pwyllgor i gynlluniau amaeth-amgylcheddol: ARD 17-02(p4)**

5.1 Bu Dr Tony Prater a Richard Lewis yn rhoi tystiolaeth lafar i ymchwiliad y Pwyllgor. Gwnaethant gyflwyno'r pwyntiau canlynol:

- roedd cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn torri ar draws meysydd polisi eraill y Cynulliad megis ei goblygiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, atal llifogydd a rheoli tir comin;
- roedd yr RSPB yn cefnogi parhâd Tir Gofal fel cynllun fferm-gyfan;
- roedd rôl i Cyswllt Ffermio i ddarparu cyngor ar gynlluniau amaeth-amgylcheddol a helpu i leihau baich gweinyddol y ceisiadau;
- roedd tystiolaeth i nodi bod manteision i fywyd gwyllt yn codi yn syfrdannol yn unol â'r arwynebedd o dir a reolir mewn modd amgylcheddol sensitif. Roedd arwynebedd mwy yn golygu mwy o amrywiaeth o rywogaethau ac yn gwneud poblogaethau o fywyd gwyllt unigol yn fwy cynaliadwy;
- roedd yn angenrheidiol targedu cynefinoedd penodol, megis rhos/gwaun arfordirol a glaswelltir

tir isel gwlyb er mwyn denu rhywogaethau coll yn eu hôl. Byddai targedu hefyd yn gweithio'n fwy effeithiol pe gellid ei gydlynu â ffynonellau cyllido eraill, megis y rhai sydd ar gael ar gyfer rheoli llifogydd;
- dylai'r mesurau ar gyfer rhan o fferm, megis y cynllun perthi, ffurfio rhan o'r cynllun eang a bas a'i deilwra i annog y sectorau llaeth a'r sectorau dwys eraill a oedd yn ei chael yn anodd i ymuno â'r cynllun Tir Gofal;
- roedd cynnyrch organig yn dod â buddion amgylcheddol, ond nid o reidrwydd i fywyd gwyllt. Byddai clymu taliadau cynnal organig wrth safonau amgylcheddol er mwyn peidio ag annog ffermio dwys yn helpu i wneud y gorau o'u buddiannau;
- dylai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn y dyfodol gynnwys monitro a gwerthuso'r buddion bio-amrywiaeth.

5.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y trefniadau ar gyfer gwerthuso Tir Gofal a Tir Cymen i'r Pwyllgor

**Pwynt Gweithredu**

Y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y trefniadau ar gyfer gwerthuso Tir Gofal a Tir Cymen - **Gweinidog, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.**

**Eitem 6: Manwerthu yng ngefn gwlad: ARD 17-02(p5)**

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru (WCC) - *Rural Retail Services - a Study* a gofynnodd i'r WCC gael ei wahodd i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- croesawodd y pwyllgor y dull strategol o fynd ati, a argymhellwyd yn yr adroddiad ond roedd yn cydnabod bod y dasg o adfywio gwasanaethau manwerthu gwledig yn un sylweddol;
- roedd yr adroddiad yn argymell na ddylai'r sector cyhoeddus roi nawdd uniongyrchol i wasanaethau manwerthu anymarferol. Dywedodd y gweinidog y dylai'r Cynulliad hyrwyddo dull cymunedol o fynd ati, annog mentrau yn y sector preifat a helpu busnesau unigol i ddod yn fwy hyfyw;
- y WDA oedd yr asiantaeth briodol i arwain y broses o weithredu unrhyw strategaeth ond roedd rôl yr awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a'r sector gwirfoddol hefyd yn hanfodol;
- ni chaiff prosiect peilot *Your Guide* sy'n darparu pwynt unigol ar gyfer gwybodaeth gyhoeddus trwy swyddfeydd post yn Swydd Gaerlyr a Rutland, ei weithredu yn ehangach. Serch hynny, dywedodd y Gweinidog ei fod yn ffafrio cynllun o'r fath ac y byddai'n ystyried sut byddai fersiwn llai costus yn gallu cael ei weithredu yng Nghymru. Roedd ELWa yn ceisio cydlynu'r dasg o ddosbarthu cronfeydd data trwy awdurdodau lleol unigol;
- nod cronfa menter gymunedol benodol o fewn Cyllid Cymru oedd datblygu entrepreneuriaid cymunedol;
- er mwyn annog cwsmeriaid i ddefnyddio siopau lleol, byddai angen atebion newydd, gan

ddefnyddio syniadau'r manwerthwyr a'r cyflenwyr lleol eu hunain, lle bo angen i ddatrys y broblem prisiau a chyflenwad.

**Pwynt Gweithredu**

Gwahodd Canolfan Cydweithredol Cymru i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor yn y dyfodol - **Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

7.1 Cymeradwywyd y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Rhagfyr 2002**